

Cyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgolion (CBGY) Bwletin #2 – Chwefror 2019

Mae'r bwletin hwn a gynhyrchwyd gan Lywodraeth cymru yn rhoi diweddariad ar y datblygiadau diweddaraf o ran CBGY.

28 Chwefror 2019
Fersiwn: CBGY/02/2019

Cyswllt

Ysgolion:

Os oes gan ysgolion unrhyw gwestiynau am CBGY, dylent gysylltu â swyddog cyswllt System Rheoli Gwybodaeth eu hawdurdod lleol gyntaf.

Awdurdodau Lleol:

Ar gyfer cwestiynau gan awdurdodau lleol am y bwletin hwn neu am CBGY yn gyffredinol, mae croeso i chi gysylltu â ni yn:

[Tîm System Rheoli](#)

[Gwybodaeth](#)

Ffôn: 03000 625014

IMS@llyw.cymru

[Tîm ystadegau gweithlu ysgolion](#)

Ffôn: 03000 625105

Ffôn (Cymraeg): 03000 255968

educationworkforcedata@llyw.cymru

Yn y bwletin hwn:

- Dyddiadau allweddol
- Sbotolau ar:
 - Set ddata gofynnol
 - Data cipolwg
- Adnoddau
- Digwyddiadau ymgysylltu

Dyddiadau allweddol:

Cam 1:

Dyddiad cyfrifiad: Dydd Mawrth 5^{ed} Tachwedd 2019

Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno data: Dydd Mercher 18^{fed} Rhagfyr

Data i'w gasglu: data 'cipolwg'

Cam 2:

Tachwedd 2020 (dyddiad cyfrifiad i'w gadarnhau)

Data i'w gasglu: cyfrifiad llawn yn cynnwys data Cam 1 a data o'r gorffennol

Sbotolau ar:

Pob mis byddwn yn edrych ar elfennau o'r cyfrifiad mewn mwy o fanylder.

Nodwedd modiwl: Set ddata gofynnol

Bydd y set ddata gofynnol angen cael ei ddychwelyd o ysgolion ac awdurdodau lleol fel rhan o'r elfen 'ysgol' a 'AD, Cyflogres ac absenoldebau' ar gyfer bob aelod o'r gweithlu mae angen data lefel unigol amdanynt. Y wybodaeth yma yw'r minimwm sydd eu hangen ar gyfer cysylltu data o systemau gwybodaeth wahanol (h.y. AD, cyflogres a systemau rheoli gwybodaeth ysgolion) a dros amserer mwyn galluogi dadansoddiadau tuedd cymhleth. Mae'r set ddata gofynnol yn hanfodol ar gyfer sicrhau cywirdeb a chysondeb y wybodaeth a dderbynir a gyhoeddir.

Lle mae aelod o'r gweithlu yn cael eu rhannu ar draws ysgolion bydd angen i bob ysgol ddychwelyd y wybodaeth hon am yr unigolyn a'i gysylltu i'w rolau yn yr ysgol penodol sy'n ddychwelyd y data.

Mae'r set ddata gofynnol ar gyfer y pwrpas cysylltu data wedi'u hamlinellu yn y tabl isod:

Enw Eitem Data	Hyd Eitem	Math o Eitem
Rhif Cyfeirnod Athro	7	Alffaniwmerig
Cyfenw	35	Alffaniwmerig
Enw Cyntaf	35	Alffaniwmerig
Enw(au) Canol	35	Alffaniwmerig
Rhyw	1	Alffaniwmerig
Dyddiad Geni	10	Dyddiad
Rhif Yswiriant Cenedlathol	9	Alffaniwmerig

Sbotolau ar (parhau):

Nodwedd modiwl: Set Ddata Gofynnol

Rhif cyfeirnod athro – dyma rif saith digid Cyfeirnod Athro (TRN) sy'n cael ei ddyrannu i unigolion ar ddyfarniad Statws Athro Cymhwysol (SAC). Mae angen cofnodi'r rhif yma ar gyfer bob athro cymhwysedig a, lle ar gael, ar gyfer unrhyw aelod arall o'r gweithlu sydd wedi derbyn SAC, beth bynnag yw ei rôl;

Rhif yswiriant cenedlaethol – rhaid dychwelyd yr eitem yma ar gyfer pob aelod o'r gweithlu. Bydd gadael yr eitem yn wag yn creu ymholiad wrth gyflwyno'r data a bydd angen nodi esboniad pam nad oes Rhif Yswiriant Cenedlaethol ar gael. Ni ddylir ddychwelyd rhifau yswiriant cenedlaethol dros dro a bydd achosi gwall wrth gyflwyno'r data.

Enwau – yn cynnwys cyfenw, enw cyntaf ac enw(au) canol, ni ddylir cynnwys enwau talfyredig neu ffurfiau eraill ar yr enw.

Dyddiad geni – dyma ddyddiad geni'r aelod staff gan ddefnyddio'r fformat CCYY-MM-DD (er enghraifft, ar gyfer 23 Ionawr 1963 = 1963-01-23). Mae'n hanfodol bod dyddiad geni cywir yr aelod staff yn cael ei ddychwelyd.

Data Cipolwg

Mae data'r cyfrifiad yn cynnwys data 'Cipolwg' a data 'Gorffennol'..

Bydd Cam 1 o'r cyfrifiad ond yn Casglu data 'Cipolwg' sy'n cynnwys y modylau manylion staff, Cwricwlwm, Rolau, a Chyflogau a Chontractau. Rhaid i'r data yma fod yn gywir fel ar ddiwrnod cyfeirnod y cyfrifiad. Mae meddalwedd y CBGY wedi'i ddatblygu i dynnu'r data 'cipolwg' a 'gorffennol' priodol. I alluogi hyn mae'n bwysig i ddiweddarau'r data yn gyson.

Er na fydd yr elfennau data 'Gorffennol' (h.y. Recriwtio, Cadw Athrawon, Cyflenwi ac Absenoldebau) yn cael eu casglu yng Ngham 1, bydd angen i ysgolion ac awdurdodau lleol i gofnodi'r wybodaeth anghenrheidiol o 1^{af} Medi 2019 yn barod i ddychwelyd y data yng Ngham 2, a fydd yn edrych yn ôl-syllol am 2019/20 ar gyfer yr elfennau yma.

Adnoddau a datblygiadau

Nodiadau Preifatrwydd – mae nodiadau preifatrwydd ddrafft yn cael eu hadolygu gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd a byddwn yn eu rhannu â swyddogion awdurdod lleol i ystyried sut i'w adlewyrchu yn fersiynau yr ysgol ac awdurdod lleol cyn ei ddsrannu i bob aelod o'r gweithlu ysgol sydd wedi'u cynnwys yn y cyfrifiad.

Nodiadau Cwblhau technegol – rydym yn y broses o ddatblygu'r nodiadau cwblhau technegol ar gyfer y CBGY. Disgwylir i fersiwn ddrafft o'r nodiadau cwblhau technegol fod ar gael erbyn diwedd mis Mawrth.

Mae cyflwyniad sleidiau 'Powerpoint' ac atodiad ddrafft o'r eitemau data o'r nodiadau cwblhau technegol sydd wedi'u dosbarthu i awdurdodau leol yn flaenorol ar gael ar gais. Gweler y manylion 'Cyswllt' ar y dudalen gyntaf i ofyn am gopïau.

Digwyddiadau ymgysylltu

Peilot CBGY – rydym yn bwriadu ymgymryd â pheilot gyda detholiad o ysgolion i brofi'r broses dychwelyd data yn ystod tymor yr haf. Bydd hyn yn helpu i nodi unrhyw broblemau gyda'r data, a galluogi ysgolion ac awdurdodau lleol i gyfarwyddo eu hunain gyda'r broses ar gyfer dychwelyd y data.

Bydd manylion pellach am y peilot ar gael mewn bwletin yn y dyfodol.

Beth nesaf

Os oes yna unrhyw eitemau hoffech weld mewn bwletinau yn y dyfodol gadewch i ni wybod at: IMS@llyw.cymru neu educationworkforcedata@llyw.cymru.

Disgwylir cyhoeddi'r bwletin hwn bob mis wrth i ni agosáu at y cyfrifiad.

Copïau ychwanegol:

Gellir cyrchu'r ddogfen hon ar [dudalennau Software Development Forum DEWi](#).